OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1051 (Cy.107)

GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*4 Ebrill 2006*
Yn dod i rym - -	*10 Ebrill 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2006.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 10 Ebrill 2006.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" (*"the Principal Regulations"*) yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**3**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Symiau y mae eu hangen at anghenion personol

2. Y swm y mae awdurdod lleol yn rhagdybio y bydd ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**4**) yw £20.00 yr wythnos.

(**1**) 1948 p.29. Gweler adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i gael y diffiniadau o "the minister" a "prescribed" yn y drefn honno ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S.1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1992/2977 fel y'i diwygiwyd gan gyfres o offerynnau dilynol.
(**4**) 1948 p.29.

Dirymu

3. Mae Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2005(**5**) drwy hyn wedi'u dirymu.

Diwygio rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau

4. Ym mharagraff (1) o reoliad 2 o'r Prif Reoliadau (dehongli), yn y diffiniad o "liable relative", yn lle "or former spouse", rhodder ", former spouse, civil partner or former civil partner".

Diwygio rheoliad 20A o'r Prif Reoliadau

5. Ym mharagraff (2) o reoliad 20A o'r Prif Reoliadau yn lle'r ffigur "£21,000" rhodder y ffigur "£21,500".

Diwygio rheoliad 28A o'r Prif Reoliadau

6. Ym mharagraff (2) o reoliad 28A o'r Prif Reoliadau (cyfrifo incwm tariff o gyfalaf - Cymru)—

(a) yn lle'r ffigur "£14,750" rhodder y ffigur "£16,000" yn y ddau le y mae'n ymddangos; a

(b) yn lle'r ffigur "£21,000" rhodder y ffigur "£21,500".

Diwygio Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau

7. Yn Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau (symiau i'w diystyru wrth gyfrifo incwm nad yw'n enillion)—

(a) Ym mharagraff 10A(**6**)—

(i) yn is-baragraffau (1)(a) a (3), ar (tm)l "spouse" mewnosoder "or civil partner", a

(ii) yn is-baragraff (1)(b), ar (tm)l "spouse's maintenance" mewnosoder "or his civil partner for that civil partner's maintenance";

(b) ym mharagraff 17(**7**)—

(i) yn lle is-baragraff (1)(a) rhodder—

"(a) pursuant to regulations made under section 2(6)(b) or 3 of the Adoption and Children Act 2002(**8**)

(ii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

"(2) Any payment other than a payment to which sub-paragraph (1)(a) applies, made to the resident pursuant to regulations made under section 2(6)(b) or 3 of the Adoption and Children Act 2002.";

(c) ym mharagraff 28H

(i) yn is-baragraffau (1) a (2) yn lle'r ffigur "£4.85" rhodder y ffigur "£5.05" ym mhob man y mae'n ymddangos; a

(ii) yn is-baragraffau (3) a (4) yn lle'r ffigur "£7.20" rhodder y ffigur "£7.50" ym mhob man y mae'n ymddangos.

Diwygio Atodlen 4 i'r Prif Reoliadau

8. Yn Atodlen 4 i'r Prif Reoliadau (cyfalaf i'w ddiystyru) yn lle paragraff 24 rhodder—

(**5**) O.S. 2005/ 663 (Cy.53).
(**6**) Wedi'i fewnosod gan O.S. 1996/602 a'i ddiwygio gan O.S. 1997/485.
(**7**) Wedi'i ddiwygio gan O.S. 2003/2530.
(**8**) 2002 c. 38.